**Cyfarwyddydau Polisi mewn perthynas â Chymru**

Mae Gweinidogion Cymru, drwy hyn, wrth arfer eu pwerau o dan adran 26(2) o Ddeddf y Loteri Genedlaethol Etc. 1993, fel y'u trosglwyddwyd gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac ar ôl ymgynghori ag Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol ("y Gronfa") yn unol ag adran 26(5), yn rhoi'r cyfarwyddydau a ganlyn i'r Gronfa:

Rhoi sylw i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd â'r nod o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylchedd a diwylliannol Cymru ac sy'n annog cyrff cyhoeddus i feddwl mwy am yr hirdymor, i weithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, i geisio atal problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Mae saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu', a phum ffordd o weithio – hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Wrth benderfynu i bwy y bydd yn dosbarthu arian, at ba ddiben, ac o dan ba amodau, bydd Ymddiriedolwyr Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol yn ystyried y materion a ganlyn:-

1. Annog pobl i gadw, gwarchod, cyflwyno, hyrwyddo a dehongli pob agwedd ar dreftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac anniriaethol Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2. Rhoi sylw i fuddiannau Cymru gyfan, ac i fuddiannau rhannau gwahanol o Gymru, gan ystyried yr amryfal batrymau demograffig ac amddifadedd mewn rhannau gwahanol o Gymru.

3. Hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg, gan adlewyrchu natur ddwyieithog Cymru, a gweithio yn unol â'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn holl weithgareddau'r Gronfa yng Nghymru. Gweithio yn unol â'r Cynllun Iaith Gymraeg y cytunwyd arno gan y Gronfa, a monitro ei fod yn cael ei weithredu yn unol â'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt.

4. Gweithio'n strategol gydag eraill er mwyn sicrhau bod cyllid y Loteri Genedlaethol yn cael yr effaith fwyaf posibl ar gyfer pobl a threftadaeth, gan annog partneriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i wneud hynny hefyd.

5. Hyrwyddo cynaliadwyedd ariannol asedau treftadaeth Cymru a phan fo hynny'n ymarferol ac yn briodol, hyrwyddo defnydd cymunedol o asedau treftadaeth yng Nghymru gan roi sylw arbennig i'r rheini sydd mewn perygl.

6. Rhoi cyfle i bobl, yn enwedig pobl ifanc, feithrin y sgiliau y mae eu hangen arnynt er mwyn cadw, gwarchod, cyflwyno a hyrwyddo treftadaeth Cymru.

7. Hyrwyddo'r defnydd o safonau proffesiynol priodol ym mhob prosiect.

8. Rhoi cyfle i bobl o bob oedran a chefndir o bob cwr o Gymru, yn enwedig plant a phobl ifanc, gael mynediad at dreftadaeth amrywiol Cymru, i ddysgu amdani, i'w mwynhau, a'i hyrwyddo drwy wneud hynny.